

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Y Bil Cymwysterau Proffesiynol

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y gellir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Cymwysterau Proffesiynol ("y Bill") yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 12 Mai 2021 a dechreuodd ar y cam Pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 9 Mehefin 2021. Gellir gweld y Bil yn: <https://bills.parliament.uk/bills/2865>.

Amcan(ion) Polisi

3. Nodir amcanion polisi Llywodraeth y DU yn y Datganiad Polisi y gellir ei weld yn: <https://www.gov.uk/government/publications/recognition-of-professional-qualifications-and-regulation-of-professions-policy-statement>
4. Yn gryno, mae Llywodraeth y DU yn cynnig fframwaith newydd ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol a rheoleiddio proffesiynau.
5. Cynigir y bydd y fframwaith yn pennu disgwyliadau lefel uchel y bydd rheoleiddwyr yn cadw ymreolaeth oddi mewn iddynt i weithio er budd eu proffesiynau a'u gweinyddiaethau datganoledig.
6. Cynigir y bydd y fframwaith cydnabod newydd yn sicrhau bod gan Llywodraeth y DU, y gweinyddiaethau datganoledig a'r rheoleiddwyr yr adnoddau i roi llwybrau cydnabod ar waith a fydd yn bodloni gofynion proffesiynau unigol mewn gwahanol rannau o'r DU. Bydd hyn yn cynnwys y gallu i ddenu talent hynod fedrus o bob cwr o'r byd i ymarfer yn y DU a cheisio sefydlu trefniadau cyfatebol â chymheiriaid o wledydd eraill.
7. Bydd y cynigion yn sicrhau y gall proffesiynau gael gafael ar y dalent sydd ei hangen arnynt o bob gwlad ac yn helpu gweithwyr proffesiynol yn y DU i fanteisio ar y cyfleoedd a gynigir gan fasnach ryngwladol.
8. Mae'r cynigion yn rhan o uchelgeisiau ehangach Llywodraeth y DU ar gyfer proffesiynau rheoleiddiedig, gan gynnwys i wneud y canlynol:
 - Sicrhau bod y ffordd y mae'r DU yn cydnabod cymwysterau o wledydd eraill yn deg, ei bod yn ategu anghenion gweithlu'r DU a'i bod yn parhau i sicrhau lefelau uchel o ansawdd a diogelwch i ddefnyddwyr.
 - Hyrwyddo amgylchedd rheoleiddiol sy'n cefnogi swyddi, symudedd cymdeithasol a mynediad i broffesiynau ar gyfer unigolion o bob cefndir.

- Sicrhau bod y trefniadau ar gyfer rheoleiddio proffesiynau yn arloesol ac yn gymesur ac y gellir eu haddasu; a'u bod yn diwallu anghenion defnyddwyr yn ogystal â diogelu'r cyhoedd.
- Gwella gallu'r DU i negodi cytundebau masnach ryngwladol ar gydnabod cymwysterau

Crynodeb o'r Bil

9. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS).

10. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n:

- a. Dod â'r system dros dro ar gyfer cymwysterau proffesiynol sy'n deillio o aelodaeth y DU o'r UE (Cymalau 5 a 6) i ben
- b. Creu fframwaith ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol a phrofiad o wledydd tramor gan broffesiynau yn y DU, neu mewn rhan o'r DU, er mwyn diwallu anghenion a bodloni gofynion y gwasanaethau a ddarperir gan y proffesiynau hynny.(Cymalau 1 a 2).
- c. Galluogi'r Llywodraeth i weithredu cytundebau rhyngwladol neu rannau o gytundebau rhyngwladol y mae'r DU yn eu llunio â phartneriaid i'r graddau y maent yn ymwneud â chydabod cymwysterau proffesiynol.(Cymal 3)
- d. Galluogi'r Llywodraeth i roi set gyson o bwerau i reoleiddwyr er mwyn iddynt allu llunio cytundebau â rheoleiddwyr tramor i gydnabod cymwysterau proffesiynol.(Cymal 4)
- e. Cynnal 'Canolfan Gymorth' ddynodedig y bydd yn rhaid i reoleiddwyr gydweithredu â hi, er mwyn rhoi cyngor ac arweiniad i'r cyhoedd.(Cymal 7)
- f. Ei gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr yn y DU roi gwybodaeth benodol i reoleiddwyr tramor lle mae gan unigolyn yr hawl, neu lle mae wedi bod â'r hawl, i ymarfer y proffesiwn hwnnw yn y DU, neu mewn rhan o'r DU, a'i fod yn ceisio'r hawl i ymarfer dramor.(Cymal 10)
- g. Ei gwneud yn ofynnol i broffesiynau ym mhob rhan o'r DU gyhoeddi gwybodaeth am ofynion mynediad ac ymarfer eu proffesiwn.(Cymal 8)
- h. Ei gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr yn y DU, os gofynnir iddynt wneud hynny, roi gwybodaeth benodol i reoleiddwyr cyfatebol mewn rhannau eraill o'r DU. (Cymal 9)
- i. Diwygio Deddf Penseiri 1997 er mwyn caniatáu system gydnabod newydd ar gyfer penseiri, ochr yn ochr ag addasiadau i drefniadau gweinyddu'r Bwrdd Cofrestru Penseiri er mwyn helpu i wella effeithlonrwydd.(Cymal 11)

Darpariaethau yn y Bil y mae angen cael cydsyniad ar eu cyfer

11. Mae gan y Senedd gymhwysedd i ddeddfu mewn perthynas â rheoleiddio proffesiynau oni bai bod rheoleiddio proffesiwn yn fater a gedwir yn ôl neu'n ymwneud â mater a gedwir yn ôl. Gan mai diben cymalau 1 i 10 yw rheoleiddio proffesiynau ac am fod hynny, yn achos cymal 3, yn cynnwys rhoi rhwymedigaethau rhyngwladol mewn perthynas â phroffesiynau datganoledig ar waith, ystyrir bod y cymalau hynny yn darparu ar gyfer diben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a bod angen cydsyniad y Senedd o dan Reol Sefydlog 29.1(i). Rhoddir dadansoddiad pellach o gymalau 1 i 10 isod:

Cymal 1: Pŵer i ddarparu ar gyfer trin unigolion fel rhai sydd â chymwysterau o'r DU.

12. Mae'r cymal hwn yn rhoi pŵer i'r awdurdod cenedlaethol priodol (a ddiffinnir yng nghymal 14 fel yr Ysgrifennydd Gwladol (neu'r Arglwydd Ganghellor), Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban neu Adrannau Gogledd Iwerddon), wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr penodedig ystyried ac asesu a ddylid trin cymwysterau a enillwyd a phrofiad a gafwyd y tu allan i'r DU fel petaent yn gymhwyster penodedig o'r DU at ddibenion gwneud penderfyniad ynghylch a oes gan unigolion hawl i ymarfer proffesiwn rheoleiddiedig. Gall rheoleiddwyr gwmpasu'r DU gyfan neu ran ohoni. Mae 'proffesiwn rheoleiddiedig' yn cyfeirio at broffesiwn lle, oherwydd deddfwriaeth, dim ond os oes ganddynt gymwysterau neu brofiad penodedig (neu os ydynt yn bodloni amod neu ofyniad amgen) y mae gan unigolion hawl i ymarfer.

Cymal 2: Pŵer a roddir gan adran 1 sydd ond yn arferadwy os bydd angen gwneud hynny er mwyn ateb y galw am wasanaethau.

12. Mae'r cymal hwn yn darparu mai dim ond os bydd yr awdurdod cenedlaethol priodol yn fodlon bod angen gwneud hynny er mwyn ateb y galw am y gwasanaethau a ddarperir gan y proffesiwn hwnnw yn y DU, neu'r rhan ohoni y mae'r rheoliadau yn ymwneud â hi, heb oedi na thaliadau afresymol, y gellir gwneud rheoliadau o dan gymal 1. Nid yw hyn yn gymwys i reoliadau a wneir o dan gymal 1 i'r graddau y maent yn addasu rheoliadau cynharach o dan y cymal hwnnw, ar yr amod nad ydynt hefyd yn ychwanegu proffesiynau eraill at y rheoliadau hynny.

Cymal 3: Rhoi cytundebau cydnabod rhyngwladol ar waith.

13. Mae'r cymal hwn yn rhoi'r pŵer i'r awdurdod cenedlaethol priodol wneud rheoliadau er mwyn rhoi unrhyw rannau o gytundebau rhyngwladol y mae'r DU wedi ymrwymo iddynt sy'n ymwneud â chydabod cymwysterau proffesiynol ar waith. Mae is-adran (4) yn darparu bod cytundeb cydnabod rhyngwladol ond yn cyfeirio at y rhannau o gytundebau rhyngwladol sy'n ymwneud â chydabod cymwysterau neu brofiad tramor. Gall rheoliadau a wneir o dan y Cymal hwn ymdrin â'r canlynol: rhoi swyddogaethau i unigolyn, rhannu gwybodaeth a darpariaethau i godi ffioedd.

14. Mae is-adran (5) o'r cymal hwn yn egluro'r darpariaethau y gellir eu rhoi ar waith o dan y pŵer hwn ymhellach, gan nodi y gellir rhoi addasiadau a diwygiadau i gytundebau rhyngwladol y DU (ar yr amod y cânt eu gwneud yn unol â darpariaethau'r cytundeb gwreiddiol) ar waith drwy'r pŵer hwn.

15. Gellir defnyddio'r pŵer hwn i roi cytundebau rhyngwladol mewn meysydd datganoledig sy'n ymwneud â chydabod cymwysterau neu brofiad tramor ar waith.

Cymal 4: Awdurdodiad i lunio cytundebau cydnabod rheoleiddwyr.

16. Mae'r cymal hwn yn galluogi'r awdurdod cenedlaethol priodol i wneud rheoliadau i awdurdodi rheoleiddwyr proffesiynau rheoleiddiedig i lunio cytundebau cydnabod rheoleiddwyr. Mae cytundeb cydnabod rheoleiddwyr yn gytundeb rhwng rheoleiddiwr yn y DU a rheoleiddiwr rhyngwladol cyfatebol ynglŷn â chydabod cymwysterau proffesiynol.

Cymal 5: Diddymu system cydnabod cymwysterau tramor gyffredinol yr UE

17. Mae'r cymal hwn yn dirymu Rheoliadau'r Undeb Ewropeaidd (Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol) 2015 (O.S. 2015/2059) a ddarparai system cydnabod cymwysterau gyffredinol ar gyfer yr AEE a'r Swistir. Mae is-adran (2) yn galluogi'r awdurdod cenedlaethol priodol i addasu deddfwriaeth sy'n dod o dan gymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer proffesiynau rheoleiddiedig, o ganlyniad i ddirymu Rheoliadau 2015 yn is-adran (1).

Cymal 6: Dirymu deddfwriaeth gydnabod arall y DU a ddargedwir

18. Mae'r cymal hwn yn rhoi'r pŵer i awdurdod cenedlaethol priodol wneud rheoliadau sy'n addasu deddfwriaeth gydnabod yr UE a ddargedwir er mwyn iddi beidio â bod yn weithredol. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i reoliadau gael eu gwneud i ddirymu deddfwriaeth ar gyfer proffesiynau sydd y tu allan i gwmpas Rheoliadau 2015, ond sy'n dal i fod yn rhan o'r fframwaith cydnabod cymwysterau ehangach sy'n deillio o'r UE.

Cymal 7: Canolfan Gymorth.

19. Mae is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol sicrhau bod person dynodedig (y ganolfan gymorth) sy'n rhoi cyngor a chymorth i unigolion sy'n awyddus i gael eu cydnabod ac ymarfer mewn proffesiwn rheoleiddiedig yn y DU, ac i bersonau eraill fel sy'n briodol ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae is-adran (2) yn ei gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr proffesiynau yn y DU, os gofynnir iddynt wneud hynny, roi gwybodaeth i'r ganolfan gymorth ddynodedig. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r ganolfan gymorth, os gofynnir iddi wneud hynny, roi gwybodaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol.

20. Mae isadrannau (2) a (3) o'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr proffesiynau yn y DU, os gofynnir iddynt wneud hynny, roi gwybodaeth i'r ganolfan gymorth ddynodedig / Ysgrifennydd Gwladol. I'r graddau y byddai'r ceisiadau hyn yn ymwneud â rheoleiddio proffesiynau, byddai gan y Senedd gymhwysedd i wneud darpariaeth debyg oni fydd yn ymwneud â rheoleiddio proffesiwn sy'n fater a gedwir yn ôl neu'n ymwneud â mater a gedwir yn ôl.

Cymal 8: Dyletswydd rheoleiddiwr i gyhoeddi gwybodaeth am ofynion i ymarfer.

21. Mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr gyhoeddi gwybodaeth am y gofynion y maent yn eu gosod ar unigolion er mwyn iddynt ymuno â'u proffesiwn neu aros ynddo. Dyletswydd tryloywder newydd yw hon.

22. Mae'r cymal yn nodi'r wybodaeth y bydd yn rhaid i reoleiddwyr ei chyhoeddi. Rhaid i'r wybodaeth gael ei chyhoeddi ar wefan gyhoeddus y rheoleiddwyr.

Cymal 9: Dyletswydd rheoleiddiwr i roi gwybodaeth i reoleiddiwr mewn rhan arall o'r DU.

23. Mae'r Cymal hwn yn gosod dyletswydd ar reoleiddwyr sy'n gweithredu yn un neu fwy o bedair gwlad y DU i rannu gwybodaeth, pan ofynnir iddynt wneud hynny, â'u rheoleiddiwr cyfatebol mewn rhan arall o'r DU (os bydd rheoleiddiwr o'r fath yn bodoli). Rhaid i'r wybodaeth hon ymwneud â hawl unigolyn i ymarfer y proffesiwn hwnnw. Er enghraifft, gallai rheoleiddiwr mewn un rhan o'r DU ofyn i reoleiddiwr cyfatebol mewn rhan arall o'r DU am wybodaeth am addasrwydd unigolyn i ymarfer a, lle y bo'n gymwys, unrhyw achosion o sanctsiynau proffesiynol. Mae'r ddarpariaeth hon yn sicrhau y gall rheoleiddwyr ym mhob rhan o'r DU gael y wybodaeth a fydd yn eu helpu i gyflawni eu rhwymedigaethau.

Cymal 10: Dyletswydd rheoleiddiwr i roi gwybodaeth i reoleiddiwr tramor.

24. Mae'r Cymal hwn yn gosod dyletswydd ar reoleiddwyr i gynorthwyo unigolion sydd â'r hawl i ymarfer y proffesiwn perthnasol yn y DU, neu sydd wedi bod â'r hawl i'w ymarfer, drwy roi gwybodaeth i reoleiddwyr tramor. Bwriedir i'r wybodaeth hon alluogi'r rheoleiddwyr tramor hynny i gadarnhau hawl yr unigolyn hwnnw i ymarfer yng ngwlad neu diriogaeth y rheoleiddiwr tramor.

Cymalau 12 i 19 – Darpariaethau Terfynol

25. Mae'r cymalau hyn yn darparu ar gyfer cymhwyso i'r Goron, cwmpas y pwerau i wneud rheoliadau, yr awdurdod y gall rheoliadau gael eu gwneud ganddo, y weithdrefn seneddol ar gyfer gwneud rheoliadau, dehongli, rhychwant, cychwyn a'r teitl byr.

26. Yn ychwanegol at gymalau 1 i 10, gallai un o Ddeddfau'r Senedd a fyddai'n gwneud darpariaeth ar gyfer y materion hynny sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd wneud darpariaethau terfynol a fyddai'n atgynhyrchu effaith cymalau 12 i 19 mewn perthynas â darpariaeth o'r fath. O ganlyniad, ystyrir bod angen cydsyniad y Senedd hefyd ar gyfer y darpariaethau hyn o dan Reol Sefydlog 29.1(i).

Gweithdrefn y Senedd ar gyfer gwneud rheoliadau

27. Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan gymalau 1, 3, 4, 5(2), 6, 8(2)(j) a 10(4).

28. Nodir y weithdrefn a ddefnyddir i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf yng nghymal 15(1) a (2):

(1) Regulations under this Act are subject to the affirmative resolution procedure where they contain provision amending, repealing or revoking primary legislation or retained direct principal EU legislation.

(2) Otherwise, regulations under this Act are subject to the negative resolution procedure

29. Dim ond rheoliadau o dan gymalau 1, 3, 4, 5(2) a 6 a all ddiwygio, diddymu neu ddirymu deddfwriaeth sylfaenol neu ddeddfwriaeth sylfaenol uniongyrchol yr UE a ddargedwir.

Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Cymwysterau Proffesiynol

30. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi'i argyhoeddi bod angen y mwyafrif o'r mesurau yn y Bil. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi egwyddor cydnabod cymwysterau proffesiynol a enillwyd a phrofiad a gafwyd dramor, ond mae o'r farn bod y pwerau cydredol a geir yn y Bil yn tanseilio pwerau hirsefydlog y Senedd a Gweinidogion Cymru i reoleiddio mewn perthynas â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig.

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i cyflwynwyd

31. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylai'r Senedd roi ei chydysyniad i'r Bil fel y'i cyflwynwyd ar 12 Mai 2021. Mae gwrthwynebiadau Llywodraeth Cymru wedi'u categoreiddio fel a ganlyn:

(i) Creu pwerau cydredol i wneud rheoliadau

32. Mae'r ffordd y mae awdurdod cenedlaethol priodol yn cael ei ddiffinio yn adran 14 o'r Bil yn golygu bod pwerau Gweinidogion Cymru (ynghyd â rhai'r llywodraethau datganoledig eraill) yn arferadwy ar yr un pryd gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r Arglwydd Ganghellor. Mae hyn yn golygu y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Arglwydd Ganghellor wneud darpariaeth, drwy reoliadau, mewn perthynas â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig.

33. At hynny, mae cymal 13 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n golygu bod y pwerau i wneud rheoliadau a roddir gan gymalau 1-6 yn cynnwys y pŵer i addasu deddfwriaeth sylfaenol (megis Deddfau Seneddol y DU a Deddfau'r Senedd) yn ogystal ag is-ddeddfwriaeth.

34. Mae'r cyfuniad o swyddogaethau cydredol a phwerau Harri VIII yn golygu y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol, o bosibl, arfer y pwerau hynny i wneud rheoliadau er mwyn diwygio Deddfau'r Senedd a rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru.

35. Er bod Llywodraeth y DU wedi datgan nad yw'n bwriadu "*use the concurrent powers in the areas of devolved competence without the agreement of the relevant DAs*", nid yw'r darpariaethau yn y Bil yn adlewyrchu hyn a byddai'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Arglwydd Ganghellor yn gallu arfer y pwerau hyn mewn meysydd datganoledig heb orfod ymgynghori â Gweinidogion Cymru na chael eu cydsyniad.

(ii) Cyfyngiadau ar arfer y pwerau i wneud rheoliadau a roddir i Weinidogion Cymru

36. Mae cymal 14(5) o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru, wrth arfer y pwerau i wneud rheoliadau yn y Bil, gael cydsyniad un o Weinidogion y Goron pan fyddai angen i reoliadau o'r fath, petaent yn cael eu gwneud yn un o Ddeddfau'r Senedd, gael cydsyniad un o Weinidogion y Goron o dan Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae hyn, i bob pwrpas, yn cyflwyno'r cyfyngiadau a osodir gan baragraffau 8-11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn y broses gwneud rheoliadau. Mae hwn yn gyfyngiad sy'n unigryw i bwerau Gweinidogion Cymru. Nid yw Gweinidogion yr Alban na Gogledd Iwerddon yn ddarostyngedig i gyfyngiad cyfatebol.
37. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu y byddai angen i Weinidogion Cymru, wrth wneud rheoliadau gan ddefnyddio'r pwerau a roddir gan y Bil hwn, gael cydsyniad un o Weinidogion y Goron o dan amgylchiadau penodol, gan gynnwys (er enghraifft) lle y byddai'r rheoliadau yn addasu neu'n dileu swyddogaeth sy'n arferadwy gan awdurdod a gedwir yn ôl. At hynny, byddai dileu'r ddarpariaeth hon drwy un o Ddeddfau'r Senedd yn y dyfodol hefyd yn dwyn i rym ofynion cydsyniad Gweinidogion y Goron.

Pryderon polisi

38. Ar wahân i effaith y swyddogaethau cydredol ar bwerau'r Senedd a Gweinidogion Cymru, mae nifer o bryderon polisi eraill yn codi o'r Bil hwn sy'n ymwneud â chwmpas, cymesuredd, dyblygu a beichiau ychwanegol a osodir ar reoleiddwyr datganoledig.
- **Cwmpas** – nid yw'r diffiniad a ddefnyddir gan y Bil yn diffinio cwmpas yn glir. Er enghraifft, nid yw Llywodraeth y DU wedi gallu dweud wrth swyddogion yng Nghymru a yw addysg bellach o fewn cwmpas y Bil hwn ai peidio.
 - At hynny, mae'r cysylltiad a wneir gan Lywodraeth y DU rhwng darparu gwasanaethau y gellir eu masnachu a darparu gwasanaethau o dan awdurdod llywodraethol – e.e. addysg a ariennir gan y wladwriaeth – yn golygu bod y Bil yn crwydro i feysydd sydd wedi'u heithrio, fel arfer, o gytundebau masnach rydd a negodiadau cysylltiedig – e.e. addysg a ariennir gan y wladwriaeth.
 - **Cysylltu cymwysterau proffesiynol â pholisi masnach** – Yn fwy cyffredinol, mae'r cysylltiad rhwng cymwysterau proffesiynol a pholisi masnach, yr ystyrir ei fod yn fater a gedwir yn ôl gan Lywodraeth y DU, er y cydnabyddir bod gan lywodraethau datganoledig rôl i'w chwarae o ran ei roi ar waith, yn lleihau pwerau Gweinidogion Cymru ymhellach oherwydd gallai penderfyniadau cael eu categoreddio'n benderfyniadau ynghylch 'masnach' yn hytrach na phenderfyniadau ynghylch 'cymwysterau proffesiynol' a chael eu gosod ar Gymru yn groes i Gonfensiwn Sewel. Er bod sicrwydd gan Weinidogion Llywodraeth y DU a chanllawiau cyhoeddus yn nodi nad dyma'r bwriad, mae'n amlwg bod hon yn risg oherwydd y ffordd y mae'r Bil hwn wedi'i ddrafftio.

- **Goblygiadau ariannol a goblygiadau eraill o ran adnoddau** – Y goblygiad ariannol yw y bydd y Bil Cymwysterau Proffesiynol yn gosod baich gweinyddol ac ariannol ychwanegol ar reoleiddwyr datganoledig yng Nghymru, sef goblygiad ariannol a fydd, yn y ddau achos, yn effeithio ar ystyriaethau cyllidebol Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi'n benodol bod yr effeithiau ariannol yn fach iawn ac nad yw'n fodlon talu unrhyw gostau sy'n deillio o gynnwys y Bil hwn. At hynny, oherwydd y nifer bach o ymgeiswyr tramor sy'n gwneud cais i weithio yng Nghymru, gallai ein rheoleiddwyr datganoledig gael eu gorfodi gan y Bil hwn i roi prosesau beichus ar waith heb unrhyw fanteision uniongyrchol. Gallai'r ddau fater hyn effeithio, yn y pen draw, ar gostau i Lywodraeth Cymru.

Goblygiadau Ariannol

39. Mae'r Bil yn ei gwneud yn bosibl i ddeddfwriaeth arall gael ei gwneud yn bennaf ac, felly, nid yw, ynddo'i hun, yn arwain at unrhyw oblygiadau ariannol sylweddol. Bydd y costau i reoleiddwyr o'r mwyafrif o ddarpariaethau'r Bil ond yn codi os cânt eu deddfu gan reoliadau. Mae Asesiad Effaith Llywodraeth y DU yn cynnwys amcangyfrifon o'r costau a'r manteision posibl. Mae'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn amcangyfrif y bydd cyfanswm y gost ledled y DU tua £90,000 mewn costau trosiannol a allai fod yn gymwys i bob un o'r rheoleiddwyr yr effeithir arnynt.
40. Mae goblygiadau ariannol yn deillio'n anuniongyrchol o'r Bil hwn. Nid yw'r union gostau yn hysbys ar hyn o bryd. Nes i'r Bil ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig gael eu rhoi ar waith, bydd yn amhosibl nodi maint y baich ariannol ychwanegol ar y rheoleiddwyr datganoledig.

Casgliad

41. Fel y nodwyd uchod, mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 1 i 10 a 12 i 19 o'r Bil Cymwysterau Proffesiynol. Ond ni fydd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i argymhell y dylid rhoi cydsyniad oni chaiff y Bil ei ddiwygio'n sylweddol er mwyn ateb ein pryderon sylweddol.

Jeremy Miles AC
Gweinidog Addysg a'r Gymraeg
17 Mehefin 2020